CYNGOR

DYDD IAU, 29 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd  (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lay, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Proctor, Reid-Jones, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |

17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ebrahim, Melbourne, Robinson a Simmons.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Naughton fuddiant personol yn Eitem 13 (Datganiad ar Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd) ar y sail bod aelod o'r teulu yn gweithio i'r Cyngor

19 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

20 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

*Rhian Vernall i’r Cynghorydd Burke, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau*
Fel rhiant i blentyn ag anableddau sy'n byw yn ardal Pentwyn, rwy'n pryderu nas ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch y cynigion presennol a bod gwybodaeth ddemograffig wedi dod o gyfrifiad 2011 nad yw'n disgrifio'r gymuned leol yn gywir. Pe bai ffactorau megis cyfraddau troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phrydau ysgol am ddim llawer uwch na’r cyfartaledd o'r ardal wedi cael eu hystyried, mae'n siŵr y byddai cyfle wedi bod i wneud cais am grantiau fel y 'gronfa ffyniant bro' a allai fod wedi cadw'r ganolfan hamdden yn gwbl agored i'r cyhoedd. Pam nad yw demograffeg yr ardal a'r hyn sydd ei angen yn y gymuned wedi cael eu hystyried o fewn y cynigion hyn? Dylai canolfan hamdden yng nghymuned Pentwyn fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb.

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*

Rwy'n cytuno â chi a dyna pam mae'r Cyngor yn buddsoddi £4 miliwn, ar sail 'buddsoddi i arbed' o'n rhaglen gyfalaf y bydd angen ei ad-dalu, tuag at adnewyddu'r ganolfan hamdden, sydd - yn ystod cyfnod parhaus o gyni a chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus - yn rhywbeth y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud i gefnogi cymunedau lleol fel Pentwyn a buddsoddi ynddynt.
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad â'r gymuned leol ym mis Gorffennaf cyn dechrau gwaith adnewyddu yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn, a gymeradwywyd gan y Cabinet yr wythnos diwethaf. Mae manylion yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cwblhau.

Mae cyfeiriad at ddata Cyfrifiad 2011 yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd bod drafft cyntaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i greu cyn y Cyfrifiad diweddaraf yn 2021. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb bellach wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gwybodaeth Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n werth nodi bod poblogaeth y ward wedi cynyddu o tua 15,600 yn 2011 i ychydig o dan 16,200, tra bod y demograffeg wedi aros yr un peth i raddau helaeth.

*Cwestiwn atodol – Rhian Vernall*
Allan o'r £4 miliwn, ni ddatgelwyd faint sydd wedi'i neilltuo i wneud cyfleusterau'n well i'r gymuned. Mae gwir angen i ni wybod faint sy'n cael ei wario ar gyfleusterau ar gyfer y gymuned, a faint sy'n cael ei wario ar Rygbi Caerdydd. Nid yw'r gymuned wedi cael unrhyw ymgynghoriadau nac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb addas, ac mae argymhellion o'r cyfarfod craffu yr wythnos diwethaf wedi cael eu hanwybyddu, ond er hyn mae Rygbi Caerdydd wedi cael ymhell dros hanner y ganolfan, gofod awyr agored ar gyfer cae 3G drud, a dywedir wrthym eu bod yn buddsoddi yn y ganolfan a'n bod eu hangen arnom er mwyn i'r gymuned gael unrhyw ddefnydd eto. Ac eto, mae canolfannau eraill yn gweithredu heb rentu'r gofod i drydydd partïon. Sut gall y Cyngor awgrymu nad oes unrhyw opsiynau eraill heb ystyried y safbwyntiau a'r effaith ar y rhai a ddefnyddiodd y ganolfan yn flaenorol. Nid yn unig y mae hyn yn annheg, mae'n sicr yn risg i arian cyhoeddus i flaenoriaethu gwario arian ar adnewyddu yn benodol ar gyfer Rygbi Caerdydd, nad ydynt mewn sefyllfa ariannol dda eu hunain, ac a fydd yn gosod eu gofod o GLL. Pam mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn cael eu hanwybyddu yn y cynnig presennol? Nid yw cymeradwyo'r cynlluniau presennol ac yna cynnig ymgynghori yn ystyrlon nac yn ddefnyddiol. Rwy'n pryderu nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaethau dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a bod y camau hyn yn anghyfreithlon. Nid yw'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn gyfredol, ac rwy'n teimlo nad ydym fel cymuned yn cael gwybod y gwir. Sut rydym yn atal y cynigion hyn rhag digwydd cyn yr ymgynghoriad?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Byddaf yn cael cyfarfod gyda'r AoS lleol a'r grŵp cymunedol sy'n ymgyrchu dros hyn, a byddwn yn hapus i gael sgwrs gyda chi am hynny. O ran y cytundeb gyda Rygbi Caerdydd, mae peth o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn amodol ar fod â chytundeb masnachol gyda phartner. Mae cost yr hyn sy'n digwydd yn y ganolfan hamdden wedi cynyddu oherwydd chwyddiant a'r argyfwng costau byw, felly bu'n rhaid i ni gofio hyn ar bob adeg er mwyn darparu rhywbeth cost-effeithiol. Hoffem ddarparu pwll yn y ganolfan, y pwll 20x8m yw'r mwyaf y gallwn ei ddarparu. Os na fyddwn yn gwneud hyn nawr ac yn gweithredu'n gyflym, gall costau barhau i gynyddu a'n hatal rhag cyflawni unrhyw beth o gwbl. Gyda hynny mewn golwg, mae'n rhaid i ni fod yn bendant. Nid oeddwn yn gallu mynychu rhai o'r cyfarfodydd cymunedol oherwydd eu bod wedi gwrthdaro ag ymrwymiadau eraill, ond rwy'n ymgysylltu a byddaf yn cael

cyfarfod gyda'r ganolfan hamdden ddydd Llun. Pe hoffech gael sgwrs am elfennau penodol nad ydynt yn fasnachol sensitif, byddwn yn hapus i wneud hynny.

*Alvin Jones i'r Cynghorydd Burke, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau*
Gwelais eich neges Ystafell Newyddion ar 15 Mehefin, yn galw am warcheidwaid coed i helpu i ofalu am ein coed. Mae coed yn chwarae rhan mor bwysig yn ein hamgylchedd naturiol, mae'n hanfodol ein bod yn eu hamddiffyn ac yn gofalu amdanynt. Faint o warcheidwaid sydd eu hangen yng Nghaerdydd a sut byddwch yn mesur y nifer rydych wedi gallu eu recriwtio?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu'r canopi coed ar draws y ddinas, ac mae angen help gwirfoddolwyr arnom i gyflawni hyn. Nid oes nifer benodol o "warcheidwaid coed", ond rydym yn annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan.
Hyd yn hyn, mae 55 o sefydliadau a 13 unigolyn wedi cofrestru fel gwarcheidwaid coed, ac mae gennym gyfanswm o 1,160 o gyfranogwyr yn ein prosiect Coed Caerdydd ehangach. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyflawnodd gwirfoddolwyr prosiect 4,808 awr o waith, sydd â gwerth ariannol o dros £45,000. Byddaf yn cyfarfod â Coed Cadw yn fuan iawn i drafod yr hyn y gallwn ei wneud yn well, i sicrhau ein bod yn plannu ac yn torri yn y mannau iawn ac yn y ffyrdd cywir, er mwyn diogelu coed ac ymateb yn feddylgar ac yn rhagweithiol.
Mae cyfranogiad gwarcheidwaid coed a gwirfoddolwyr yn hanfodol i lwyddiant ein prosiect ehangu canopi coed. Diolch am eich diddordeb yn y mater pwysig hwn.

*Cwestiwn atodol – Alvin Jones*
Diolch am eich ymateb, a dymunaf bob llwyddiant i'r gwarcheidwaid coed. Yn ogystal â sicrhau goroesiad ein coed sydd newydd eu plannu, mae amddiffyn ein coed aeddfed o leiaf yr un mor bwysig o ystyried maint eu cyfraniad at amrywiaeth, bioamrywiaeth a'r amgylchedd. Dylid ymestyn rôl y gwarcheidwaid i amddiffyn ein coed aeddfed rhag difrod o unrhyw fath. Mae'r un peth yn wir am y mannau gwyrdd yn ein dinas. Mae coed a mannau gwyrdd yn aml yn cael eu hymosod gan benderfyniadau cynllunio a wneir gan Gyngor Caerdydd. Mae enghreifftiau yn fy ardal i yn cynnwys dinistrio safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur, fel Dolydd Llwyn Mallt yng Nghoryton (lle mae cannoedd o goed aeddfed yn cael eu dinistrio), effaith y cynnig i adeiladu ar safle Felodrom Maendy, a'r bygythiad i Barc Hailey ym Mharc Llandaf o gynigion ar gyfer gorsaf pwmpio carthffosiaeth, mae'r olaf yn destun adolygiad barnwrol. Rwy'n cynnig y dylid ymestyn cylch gwaith rôl y gwarcheidwaid yng Nghaerdydd i amddiffyn llawer mwy o'r hyn sydd gennym ac sy'n werthfawr. Beth ydych chi'n meddwl?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Byddaf yn siarad â Coed Cadw am hynny ddydd Llun. O ran y materion cynllunio rydych wedi'u crybwyll, maent yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio lled-farnwrol, sy'n drawsbleidiol.

*Paul Rock i'r Cynghorydd De'Ath, yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol*
Rwy'n deall i'r AoS Mabon ap Gwynfor fynd i gynhadledd tai yn Barcelona yn ddiweddar, ac mewn erthygl yn Nation Cymru ar 19 Mehefin, dywedir ei fod wedi dweud y canlynol; *rwy'n ystyried CDLlau [Cynlluniau Datblygu Lleol] yn fwy fel offeryn gyrru economaidd yn hytrach nag offeryn datblygu cymunedol a bod angen cyflwyno*

*fframwaith datblygu cymunedol newydd sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned. Mae CDLlau yn seiliedig ar ragolygon diffygiol o'r boblogaeth ac mae'r rheiny'n gyrru cynlluniau nad ydynt yn adlewyrchu gofynion cymunedau unigol - nid ydynt yn addas at y diben. Mae angen i CDLlau adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ym mhob cymuned unigol yn hytrach na golwg eang ar ardal awdurdod lleol mawr."*

Sut bydd Cyngor Caerdydd yn ymateb i'r her hon?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rwy'n anghytuno'n sylfaenol â chynsail eich cwestiwn; a'n bod yn defnyddio data diffygiol i adeiladu ein CDLlau, yn enwedig y CDLl newydd y byddwn yn ei drafod yn nes ymlaen. Rwy'n anghytuno'n llwyr nad oes angen i ni ddefnyddio golwg eang, ledled yr awdurdod lleol - mae angen i ni wneud felly'n llwyr, gan ystyried yr argyfwng hinsawdd, tai fforddiadwy, safleoedd cyflogaeth a mwy. Mae'n rhan hanfodol o'r cynllun, ond nid yw hynny'n golygu na allwn wneud gwaith creu lleoedd lleol a phwrpasol iawn.

*Cwestiwn atodol – Paul Rock*
Mae'n ymddangos o'ch ateb nad oes gan y Cyngor ddymuniad penodol i flaenoriaethu datblygu cymunedol. Wrth gwrs, mae'n iawn yn rhesymegol ac yn foesol i'r Cyngor ymgynghori â chymunedau lleol wrth ystyried pethau fel a ddylid rhoi prydlesi neu hawddfreintiau dros dir cymunedol. Pam, felly, na wnaeth y Cyngor hynny yn achos Cae Lady Cory a Fferm y Fforest yn yr Eglwys Newydd, ac yn fwy diweddar yn natblygiad arfaethedig Dŵr Cymru ar Barc Hailey?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Er fy mod yn anghytuno, rwy'n gwerthfawrogi eich barn ac mae gen i ddiddordeb mewn clywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud. Rydym ar fin cychwyn ymgynghoriad 10 wythnos ar y cynllun newydd, dewch i'r digwyddiadau rydym yn eu cynnal i weld y pethau cyffrous iawn sydd wedi'u cynllunio. Gadewch i ni gael trafodaeth am eich barn ar gynllunio yn y dyfodol.

21 : DEISEBAU

Derbyniwyd y deisebau canlynol.

| Cyflwynwyd gan | Nifer y Llofnodion Perthnasol | Natur y Ddeiseb |
|---|---|---|
| Y Cynghorwyr Wood/Taylor | 31 | Yn galw ar y Cyngor i giatio'r lôn yng nghefn Heathfield Road i Quentin Street |
| Y Cynghorydd Davies | 76 | Yn galw ar y Cyngor i beidio â lleihau amlder casgliadau biniau du |
| Y Cynghorydd Joe Carter | 23 | Yn galw ar y Cyngor i ganiatáu i'r cyhoedd gael dweud eu dweud ar Adnewyddu Canolfan Hamdden Pentwyn |
| Mr Dan Davies | 1113 | Yn galw ar y Cyngor i achub clwb tennis yr Eglwys Newydd |

22 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Rhoddodd yr Arglwydd Faer amlinelliad o'i hwythnosau prysur ond hynod ddymunol cyntaf fel yr Arglwydd Faer gan gynnwys mynychu nifer o ddigwyddiadau:

Derbyniad Ffarwelio'r Myfyrwyr Rhyngwladol;
BBC Canwr y Byd – Cyhoeddi'r enillydd
Theatr Awyr Agored, Theatr Everyman
Carnifal Creigiau
Agor Canolfan Fwyd Treganna yng Nglan-yr-afon
Cwrdd â Chenhadon Kyrgyzstan ac Armenia
Gwobrau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Saliwt gynnau brenhinol ar gyfer pen-blwydd y Brenin Charles III
Cwrdd â chymunedau amrywiol gwych Caerdydd yn y MELA a chymryd rhan ynddynt
Codi baner y Philipinau
Urddo'n farchog a phenodi Priordy Newydd Sant Ioan
Gosod y paliwm ar Archesgob Caerdydd
Dathlu 75 mlynedd ers cyrhaeddiad 'Windrush'

Mae nifer ac amrywiaeth y digwyddiadau a'r ymrwymiadau wedi bod yn hynod ddiddorol.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r holl Gynghorwyr a ymgysylltod â'r bobl ifanc o UCAN a oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol fis diwethaf, gwerthfawrogwyd eu hymgysylltiad a'u diddordeb yn fawr.

Talodd yr Arglwydd Faer deyrnged hefyd a chynigiodd gydymdeimlad i deuluoedd tri chyn-gynghorydd a fu farw'n ddiweddar, y Cynghorwyr Brian Finn, Harry Ernest a Rita Austin.

## 23 : ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

Cytuno ar gynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 a'i gymeradwyo cyn cyhoeddi'n ffurfiol, yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

Gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg) (Cymru) 2011).

## 24 : CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD CAERDYDD 2021–2036: STRATEGAETH A FFEFRIR I YMGYNGHORI ARNI

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Caerdydd, fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac argymell ei chymeradwyo gan y Cyngor; ac

Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r CDLIN, fel y nodwyd ym mharagraff 26 yr adroddiad ac argymell ei chymeradwyo gan y Cyngor cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei chytundeb.

Cynigiodd y Cynghorydd Adrian Robson Ddiwygiad i'r adroddiad.

“Argymhellir:

1) Bod y Cyngor yn cyfeirio *Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021–2036: Strategaeth a Ffefrir i Ymgynghori arni* yn ôl i'r Cabinet fel bod Opsiwn A twf tai yn cael ei ddatblygu, gan gydnabod y lefel aruthrol o gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer Opsiwn A yn ymgynghoriad diweddar y Cyngor.

2) Bod amserlen ddiwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael ei diweddaru yn unol â hynny cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru"

Eiliwyd y Diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Joel Williams.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad a’r diwygiad.

Ymatebodd y Cynghorydd De’Ath i'r drafodaeth a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y diwygiad.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

DERBYNIWYD y bleidlais ar yr adroddiad.

25 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYNGHORI RHIANTA CORFFORAETHOL

Mae angen i'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol gyflwyno adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor ar waith y Pwyllgor dros y flwyddyn.

Mae'r adroddiad yn amlinellu gweithgareddau'r Pwyllgor o fis Mawrth 2022 i fis Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2022-2023.

26 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd.

27 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Craffu

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Craffu

## 28 : DIWYGIO’R COD YMARFER AELODAU - PRESENOLDEB MEWN HYFFORDDIANT GORFODOL

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg i'r Cod Ymarfer Aelodau mewn perthynas â phresenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant gorfodol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

1. gymeradwyo'r diwygiad a argymhellwyd i’r Cod Ymarfer Aelodau, fel y dangoswyd yn Atodiad A; a

chyfarwyddo'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i gyhoeddi'r hysbysiadau gofynnol mewn perthynas â diwygio'r Cod Ymarfer Aelodau, fel y nodwyd ym mharagraff 14 yr adroddiad, a diweddaru'r Cod Ymarfer Aelodau yn Rhan 5 y Cyfansoddiad, yn unol â hynny.

## 29 : DATGANIADAU'R CABINET

Datganiad yr Arweinydd
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Gardd-Bentref Trelái
- Ffair Gyrfaoedd Cymraeg

Datganiad ar y Newid yn yr Hinsawdd
Ymatebodd y Cynghorydd Wild i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Casglu Gwastraff
- Cynllun Ail-lenwi
- Cynllun Casglu Podiau Coffi
- Uwchgynhadledd Caerdydd Un Blaned

Datganiad ar Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau
Ymatebodd y Cynghorydd Burke i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Coed Caerdydd
- Rhaglen Digwyddiadau'r Haf
- Adnewyddu Ardaloedd Chwarae
- Parciau yn Llandaf
- Awdurdod Harbwr Caerdydd

Datganiad ar Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
Ymatebodd y Cynghorydd Weaver i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Caffael
- Bobi’r SgyrsBot

Datganiad ar Dai a Chymunedau
Ymatebodd y Cynghorydd Thorne i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gorfodi Tai'r Sector Preifat
- Llety Dros Dro

Datganiad ar Fuddsoddi a Datblygu
Ymatebodd y Cynghorydd Goodway i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Marchnad Caerdydd
- Rhagolwg Economaidd

Datganiad ar Wasanaethau Cymdeithasol
Ymatebodd y Cynghorydd Mackie i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Strategaeth Toiledau Cyhoeddus

Ymatebodd y Cynghorydd Lister i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Diweddariad ar Faethu
- Ymweliadau

Datganiad ar Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
Ymatebodd y Cynghorydd Sangani i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Wythnos Ffoaduriaid

Ymatebodd y Cynghorydd Bradbury i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:
- Gwasanaethau Ieuenctid yn Nhrelái a Chaerau

Datganiad ar Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Ymatebodd y Cynghorydd De'Ath i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwybodaeth Bysus Amser Real
- Gwiriadau Cwsmer Cudd ar Dacsis

Datganiad ar Addysg
Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Merry i gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd
- Arolygiadau Estyn

Ymweliadau Ysgol

30 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Y Cynghorydd Owen i'r Cynghorydd De'Ath*
Yn ddiweddar, cafwyd adroddiadau bod rhai awdurdodau lleol yn y DU yn cael gwared ar fesuryddion parcio sy'n galluogi taliadau arian parod a cherdyn am barcio ac yn lle hynny yn gorfodi gyrwyr i lawrlwytho appiau ar eu ffonau symudol er mwyn talu. A oes gan Gyngor Caerdydd unrhyw gynlluniau i symud tuag at dalu am barcio drwy appiau symudol yn unig?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnig cyfle i yrwyr dalu am barcio mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys trwy wefan neu app, yn ogystal â dros y ffôn, neu drwy ddefnyddio peiriannau talu am barcio. Nid ydym wedi lleihau nifer y peiriannau talu am barcio ers 2018 ac ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud hynny.

*Y Cynghorydd Carter i'r Cynghorydd Burke*
Sut bydd y Cyngor yn sicrhau bod ymgynghoriad Canolfan Hamdden Pentwyn yn ystyrlon pan fo'r cynigion eisoes wedi'u cymeradwyo a'i fod wedi'i gyfyngu i gyllideb a gymeradwywyd ymlaen llaw?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Bydd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r cynigion a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 22 Mehefin ac y mae'r Cyngor wedi eu hystyried yn fforddiadwy er mwyn sicrhau datrysiad hirdymor cynaliadwy ar gyfer cadw Canolfan Hamdden Pentwyn.

Mae'r gwaith adnewyddu wedi'i gyfyngu i'r gyllideb sydd ar gael, sef dyraniad cyfalaf Buddsoddi i Arbed y mae angen ei ad-dalu drwy incwm.

Wrth wneud y buddsoddiad, mae'r Cyngor yn ceisio lleihau cost gweithredu'r ganolfan, gan fod Canolfan Hamdden Pentwyn wedi gweithredu mewn diffyg sylweddol ers amser maith, ac mae hyn wedi rhoi pwysau ar gynaliadwyedd y contract Gwasanaethau Hamdden cyffredinol gyda GLL.

Mae'r Cabinet wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn dechrau'r gwaith adnewyddu.

Os, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bod angen addasiadau na ellir talu amdanynt o fewn y gyllideb, ni fydd y prosiect yn mynd rhagddo a byddai angen i'r Cabinet ystyried adroddiad pellach.

Er bod y Cabinet yn hapus i ymgynghori ar y cynigion cyffredinol, ni ellir newid y cynigion sy'n ymwneud â'r pwll nofio. Mae'n werth ailadrodd fy mod yn cwrdd â'r AoS a'r grŵp cymunedol brynhawn Llun, lle byddwn yn gallu trafod yn fwy penodol yr hyn y maent yn chwilio amdano.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Carter*
Mae'r cwestiwn yn ymwneud â sut rydym yn gwneud hyn yn ystyrlon, rwy'n ddiolchgar am y sylw am ddiwygiadau posibl ar y pwynt hwnnw, ond credaf fod eu pryderon wedi'u mynegi yn y cyfarfod craffu heb gael eu hystyried. Rydym wedi gweld ymgynghoriadau eraill yn y Cyngor hwn sydd, yn anffodus, wedi cael eu hanwybyddu. Mae ein trigolion yn poeni am ddidwylledd o ran ymgynghori. A allwch chi roi sicrwydd i mi y byddwch yn edrych yn ofalus ar yr holl gynigion hyn wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn?

Fy ail gwestiwn yw a allech chi estyn gwahoddiad i'r cyfarfod hwn i'r tri chynghorydd lleol hefyd, gan nad oeddem yn ymwybodol o hyn cyn heddiw.

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
O ran yr ymgynghoriad, rwy'n wirioneddol o'r farn, os na wnawn weithredu nawr, bod perygl y bydd y costau'n cynyddu eto, ac maent eisoes wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r elfen pwll yn sefydlog yn fy marn i, mae'r meysydd eraill sy'n peri pryder sydd

wedi eu codi, fel mynediad i'r gymuned, wedi cael eu lliniaru. Mae hyn wedi cael ei godi mewn craffu, lle dywedom y byddai cyfleoedd i'r trigolion gael mynediad i'r safle ar gyfer cyfarfodydd cymunedol mewn mannau nad oeddent yn cael eu defnyddio. Byddent hefyd yn cael mynediad i fannau hamdden a chyfarfod, a bydd caffi a phwll. Mae'r cyfarfod ddydd Llun yn ymwneud yn fawr ag ennill gwell dealltwriaeth, gan nad wyf wedi gallu mynd i'r cyfarfodydd cyhoeddus blaenorol oherwydd gwrthdaro yn y dyddiadur. Rydym eisiau gwybod yn benodol beth allwn ni ei wneud i wneud yr ymgynghoriad yn ystyrlon i chi, o fewn y cyfyngiadau rydym yn gweithio. Byddaf yn ceisio estyn y gwahoddiad i chi, neu eich diweddaru wedyn os na allwch ddod.

*Y Cynghorydd Ali i'r Cynghorydd De'Ath*
A all yr aelod cabinet roi diweddariad ar waith arwynebu Heol y Coleg a phryd mae i fod i gael ei gwblhau?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Mae Heol y Coleg yn lôn gerbydau goncrit wedi'i gorchuddio â haen arwyneb asffalt arbenigol, felly mae ychydig yn fwy cymhleth i'w harwynebu na ffordd arferol. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn ymgysylltu â chontractwyr arbenigol i edrych ar gynigion ar gyfer disodli'r haen arwyneb, ac mae disgwyl i gynllun arwynebu gael ei weithredu tua diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

*Y Cynghorydd Davies i'r Cynghorydd Weaver*
Sut mae'r Cyngor yn cynnal safonau uchel, arfer gorau, a thegwch wrth ymgeisio am wobrau corfforaethol?

*Ateb – Y Cynghorydd Weaver*
Byddwn yn disgwyl i'r holl bethau hynny gael eu hystyried gan swyddogion fel rhan o unrhyw gais am wobr a gyflwynir gan y Cyngor.

Mae gennym hefyd hanes o fodloni'r safonau uchel sydd eu hangen ar gyfer y gwobrau hynny y mae'r Cyngor wedi gwneud cais amdanynt..

Mae hyn yn cael ei ddangos gan nifer y gwobrau sydd wedi eu hennill yn llwyddiannus yn dilyn ein ceisiadau - mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Gwobr Partneriaeth Gyhoeddus-Breifat LGC a enillwyd y llynedd ar gyfer Partneriaeth Dinas Cyflog Byw Caerdydd; a'n

- Gwobrau Baner Werdd blynyddol gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer parciau a mannau gwyrdd y ddinas, a oedd yn cynnwys Gwobr 'Tîm y Flwyddyn' y DU ar gyfer Tîm Parc Bute y llynedd.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Davies*
Efallai y bydd y Cynghorwyr yn cofio cwestiwn a ofynnais i'r Cynghorydd Sangani yn gynharach eleni ynglŷn â sut roedd y Cyngor wedi gadael ei hun yn agored i ddylanwad Stonewall ar ôl derbyn gwobr ganddynt yn rhan o'i Gynllun Corfforaethol, sy'n golygu y gallai Stonewall enwi eu pris neu bydd y Cyngor yn methu â chyflawni un o'r nodau y mae wedi'i osod iddo ei hun. Yn dilyn cwestiynau gennyf fi, datgelodd y Cabinet i mi yr adroddiad y mae Stonewall yn ei gyflwyno fel bod y Cyngor yn

gwybod sut i gael sgôr dda ganddynt. Un o'r awgrymiadau, ar wahân i ddileu'r gair 'mam' yn ei ddogfennau polisi fel yr ofnais i ddechrau, oedd hyrwyddo cynadleddau a seminarau Stonewall. Felly, gwnaethon nhw wir enwi eu pris, gan fod Stonewall yn amlwg yn ennill arian o'r cyrsiau hyn. Er gwaethaf sicrwydd amheus, mae arnaf ofn, fod rhai argymhellion a wnaethpwyd wedi'u gweithredu, nid yw hynny'n golygu bod y newidiadau wedi'u gwneud oherwydd yr argymhellion. Nid wyf wedi fy argyhoeddi. Felly, rwy'n credu yr hoffem wybod faint o arian y mae'r Cyngor wedi'i dalu i Stonewall yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a pha fesurau sydd ar waith i atal Stonewall rhag dylanwadu'n amheus ac yn annemocrataidd ar y weinyddiaeth Lafur, gan ei bod yn swnio eich bod ar gledr eu llaw nhw.

*Ateb – Y Cynghorydd Weaver*
Nid yw'n swnio fel hynny o gwbl. Bydd yn rhaid i mi edrych ar yr union swm o arian y mae Stonewall wedi'i dderbyn gan y Cyngor - mae ffi am fod yn rhan o'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, yr ydym wedi bod yn rhan ohono ers 2017. Fel Cyngor, rydym yn falch iawn o gefnogi ein holl ddinasyddion a staff a pharchu'r holl nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Nid yw ein cyfranogiad yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn ein gorfodi i gymryd unrhyw gamau penodol o gwbl. Mae'r Cyngor yn cyflwyno pob penderfyniad polisi a darn o ganllawiau drosto ef ei hun. Rydym yn derbyn cyngor gan gyrff allanol, ac rydym yn ceisio ein gwneud ein hunain yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol, ond rydym yn gwneud penderfyniadau wedi i ni ystyried y ffeithiau ein hunain. Byddwn wedi cyfeirio at y llwyddiant a gawsom gyda Stonewall, ond ni wnaethom wneud cais am hynny mewn gwirionedd. Rydych yn cymryd rhan yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gwethlel ac yn cael adborth ar eich perfformiad, yna mae Stonewall yn penderfynu pwy i roi gwobrau iddo yn seiliedig ar arfer da maent yn ei weld. Un o'r gwobrau a gawsant oedd i'n Rhwydwaith Staff LHDT+, sydd wedi gwneud gwaith rhyfeddol yn cefnogi staff ac yn ein gwneud yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol. Byddwn yn parhau i ymgynghori ag arbenigwyr mewn nifer o wahanol feysydd ar gydraddoldeb ac arferion gweithle eraill, ac rwy'n credu bod hynny'n arfer da.

*Y Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd Merry*
Faint o ysgolion a) cynradd a b) uwchradd yng Nghaerdydd sydd wedi gosod cyllideb ddiffyg ar gyfer 2023-24, a pha ganran o gyfanswm nifer ysgolion cynradd neu uwchradd y ddinas mae hyn yn ei chynrychioli ym mhob achos?

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*
Bydd 35 o Ysgolion Cynradd yn gosod cyllideb ddiffyg ar gyfer 2023/24, sy'n cynrychioli 35% o gyfanswm nifer yr Ysgolion Cynradd yn y ddinas (99); a

Bydd 4 Ysgol Uwchradd yn gosod cyllideb ddiffyg, sy'n cynrychioli 22% o gyfanswm nifer yr Ysgolion Uwchradd (18).

Yn ogystal, bydd 1 Ysgol Arbennig yn gosod cyllideb ddiffyg, sy'n cynrychioli 14% o gyfanswm nifer yr Ysgolion Arbennig (7).

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Berman*
Mae hynny'n ganran eithaf sylweddol o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd i bob pwrpas yn gosod cyllidebau i wario mwy o gyllid nag y maent yn ei gael. Maent yn gorfod gwneud hynny, a gwn oherwydd fy mod ar gorff llywodraethu dwy ysgol gynradd sy'n gosod cyllidebau diffyg, oherwydd mai dyna'r unig ffordd y gallant gyflawni eu rhwymedigaethau staffio statudol. Mae'n awgrymu i mi fod sefyllfa

ddifrifol yma, oherwydd ni all yr ysgolion hyn barhau i osod cyllidebau diffyg flwyddyn ar ôl blwyddyn. Sut byddwn yn datrys hyn, a pha sylwadau y mae'r Cyngor hwn yn eu gwneud i Lywodraeth Cymru oherwydd mae angen amlwg am gyllid ychwanegol i ddatrys hyn? Mae rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r cyllid ar gyfer ysgolion yn y ddinas hon, sut byddwch yn mynd i'r afael â hyn?

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*
Dosbarthom £25.02m ychwanegol i'n cyllideb dirprwyedig ysgolion yn gynharach eleni, er gwaethaf bwlch o fwy na £24m yn y gyllideb. Rwy'n credu bod hynny'n tanlinellu'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar addysg, ond hefyd yr effaith drychinebus y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i chael ar economi'r wlad hon. Mae'r materion sy'n ymwneud â chyllid yn eithaf cymhleth mewn gwirionedd, er enghraifft cyfraddau swyddi gwag o 22% mewn ysgolion cynradd. O ran Llywodraeth Cymru, byddwn yn sicr yn gofyn iddi flaenoriaethu gwariant ar gyfer addysg, ac rwy'n credu bod angen iddo fod yn flaenoriaeth, boed hynny i’r Cyngor, llywodraeth Cymru neu lywodraeth y DU, o ran unrhyw gyllid ychwanegol y gellir ei roi i Lywodraeth Cymru. Mae ein plant wedi bod trwy gyfnod llawn cynnwrf, gwyddom fod galw cynyddol ar ein hysgolion, ac mae'n bwysig iawn ceisio ateb y galw hwnnw. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae swyddogion yn gweithio gydag ysgolion mewn diffyg, gan goladu asesiadau o’r effaith ar gyllideb ysgolion unigol, mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion yn gweithio ar ffyrdd y gellir cyflawni arbedion neu y gallwn addasu'r fformiwla yn fwy priodol, a byddwn yn dechrau dadansoddi cynlluniau gwariant y Cyngor er mwyn nodi'r ysgolion ychwanegol hynny a allai fod mewn trafferth yn 2024/25. Nodyn atgoffa cyflym, serch hynny, am sut y gall gwahanol arferion gyfrannu at hyn. Mae ymchwil yn dangos mai yng Nghaerdydd oedd 3 o'r 5 ysgol yng Nghymru â'r diffygion mwyaf yn 2010, felly rwy'n siŵr y byddwch yn deall y gwahanol ffactorau sy'n gysylltiedig â diffygion mewn ysgolion.

*Y Cynghorydd Jackie Jones i’r Cynghorydd Wild*
Mae’r newid yn yr hinsawdd yn amlygu ei hun mewn sawl gwahanol ffordd, ond yn enwedig mewn llifogydd, lle mae mesurau ataliol yn allweddol. Sut mae’r Cyngor yn gweithio i leihau'r perygl o lifogydd o Nant yr Eglwys Newydd.

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Ar hyn o bryd rydym yn datblygu cynlluniau i leihau'r perygl o lifogydd o Nant yr Eglwys Newydd fel rhan o gynllun lliniaru llifogydd, a elwir hefyd yn Eglwys Newydd Werddach.

Mae ardal astudiaeth Eglwys Newydd Werddach yn cynnwys y rhan o Nant yr Eglwys Newydd sy'n llifo o Barc Caedelyn yn Rhiwbeina trwy'r Eglwys Newydd i'w gollyngfa yn Afon Taf ym Mharc Lydstep, Gabalfa. Rydym yn ffodus mewn ffordd y mae'n edrych y bydd nodweddion draenio cynaliadwy yn gallu datrys llawer o'r broblem yn hytrach nag angen mwy o beirianneg sylweddol.

Gan adeiladu ar lwyddiant Grangetown Werddach, bydd y prosiect Eglwys Newydd Werddach yn archwilio amrywiaeth o atebion dylunio dinesig dŵr sensitif gan gynnwys seilwaith gwyrdd, rhwydwaith o fannau gwyrdd amlbwrpas, i leihau dŵr wyneb ffo a rheoli problemau capasiti'r rhwydwaith draenio lleol, wrth wella rhannau o fannau cyhoeddus yr Eglwys Newydd.

Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru, mae’r Cyngor wedi penodi Arup i gwblhau'r opsiynau, datblygu'r dyluniad manwl a sicrhau caniatâd cynllunio.

Mae tîm y prosiect yn bwriadu cynnal y digwyddiad cyntaf i randdeiliaid yn yr Eglwys Newydd ddydd Mercher 12 Gorffennaf ac mae'n awyddus i gydweithio ag aelodau ward lleol, rhanddeiliaid allweddol eraill a'r gymuned leol i helpu i lunio'r dyluniad manwl.

Bydd mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal wrth i'r prosiect ddatblygu, a fydd yn cynnig cyfleoedd pellach i'r gymuned leol roi ei barn wrth i gynigion manwl gael eu datblygu.

*Cwestiwn atodol – y Cynghorydd Jackie Jones*
Mae'n wych clywed ein bod yn gwneud cymaint i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd yn benodol. Sut yr ymgysylltir â'r gymuned ar y cynlluniau hyn?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr, oherwydd gwn eich bod eisoes wedi bod yn gweithio ar hyn gyda swyddogion, yn dod o hyd i wybodaeth ac yn ei rhannu â thrigolion fel bod pawb yn gwybod beth sydd i ddod. Mae'n bwysig bod pobl yn deall, ac mae rhai ysgolion eisoes wedi bod yn rhan o'r broses. Mae digwyddiad i randdeiliaid ar 12 Gorffennaf, felly byddai'n dda lledaenu'r gair am hynny, a bydd mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid fel bod pobl yn cael cyfle i gyfrannu at y cynlluniau.

*Y Cynghorydd Driscoll i'r Cynghorydd Wild*
Fel rhan o'r Cynllun Ail-lenwi Byd-eang, hoffwn weld ffynnon ail-lenwi dŵr yfed wedi'i gosod yn Llandaf a Danescourt. Os gellir nodi safle addas, a allwch chi weithio gyda mi i wneud i hyn ddigwydd?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Gallaf. Byddwn yn hapus i weithio gyda chi i weld a oes modd nodi lleoliad priodol o fewn ward Llandaf.

Byddaf yn gofyn i swyddogion o'r Tîm 'Carwch Eich Cartref' gysylltu â chi yn ystod yr wythnosau nesaf.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Driscoll*
Rwy'n croesawu'r fenter yn fawr, mae'n dda gweld y ffynnon wedi'i gosod ym Marchnad Caerdydd yn cael ei defnyddio'n dda, ac mae'n dda y gall anifeiliaid anwes gael diod hefyd. Pryd ydych chi'n meddwl y gallai ddigwydd? A oes rhaid aros tan yr etholiad nesaf i weld un?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Gall fod cymhlethdodau o ran plymio, nid yw bob amser mor syml ag yr ydym yn meddwl. Rydych yn iawn, roeddwn i yno yn ddiweddar gyda'r Cynghorydd Mackie a thra roedden ni yno, roedd llwyth o wahanol bobl o bob rhan o Gaerdydd wir yn gwerthfawrogi'r ffynnon. Mae'n dda o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac yn cefnogi lles pobl.

*Y Cynghorydd Taylor i'r Cynghorydd De'Ath*
Pa wybodaeth sydd ei hangen o hyd er mwyn i'r Cyngor gyflwyno ei gais i'r Comisiwn Elusennau mewn perthynas â'i gynlluniau ar gyfer Parc Maendy?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Dim.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Taylor*
Mae erthygl Wales Online a'r datganiad a ddarparwyd gan y Cyngor ddim yn bell yn ôl yn awgrymu bod angen llawer o wybodaeth o hyd ar gyfer y cais hwnnw, ond beth bynnag, mae sawl mis wedi mynd heibio ers i'r Cabinet benderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gyfnewid tir cyn i'r cais hwnnw gael ei wneud. Mae'r heriau neu'r methiannau y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu o ran rheoli ei gyfrifoldebau fel unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Parc Maendy wedi cael eu dogfennu gan y broses a sefydlwyd. Rwy'n siŵr nad oes yr un ohonom eisiau bod mewn sefyllfa eto lle nid yn unig y mae'r penderfyniad yn cael ei wrthwynebu gan gymunedau a thrigolion, ond hefyd lle mae'r broses y mae'r Cyngor ei hun wedi'i llunio a dealltwriaeth y Cyngor ei hun o'i gyfrifoldebau yn cael eu cwestiynu. Nid wyf yn credu ei bod yn annheg dweud nad yw'r Cyngor yn gwbl barod i ddelio â'r mater. Pa gamau sy'n cael eu cymryd nawr i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Cyngor fel ymddiriedolwr, a'i fod yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar sail cyngor teg a diduedd?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Gofynnodd y Comisiwn Elusennau i ni am wybodaeth ychwanegol a roddwyd iddo gennym. Nid oes amserlen iddo gyhoeddi ei benderfyniad, mae'n ddibynnu ar ei adnoddau. Yn amlwg, mae hon wedi bod yn broses hir, ac rydym wedi dysgu ychydig o bethau ohoni, a gobeithio y tro nesaf y bydd rhywbeth fel hyn yn cael ei ddatrys yn gyflymach.

*Y Cynghorydd Green i'r Cynghorydd Weaver*
Canfu treial diweddar yng Nghyngor Dosbarth De Swydd Gaergrawnt fod wythnos 4 diwrnod wedi arbed arian a gwella perfformiad. Pa ystyriaethau y mae Cyngor Caerdydd wedi'u rhoi i gynnal treial tebyg?

*Ateb – Y Cynghorydd Weaver*
Rwy'n hapus i ddweud bod y Cyngor yn monitro enghreifftiau o arfer arloesol ac arfer gorau ledled y wlad o ran ystod o faterion cyflogaeth ac ariannol, a byddwn yn dilyn y treial hwn - a oedd am ddeufis i ddechrau ac sydd bellach wedi'i ymestyn am flwyddyn arall - gyda diddordeb. Byddwn yn awyddus i weld y dadansoddiad o'r canlyniadau a deall eu goblygiadau.

Bydd ystod eang o ffactorau'n cael eu hystyried bob amser mewn unrhyw newidiadau i'r ffordd y gallai'r Cyngor weithredu, gan gynnwys yr effaith ar gwsmeriaid a thrigolion o unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau sydd ar gael, yn ogystal â lles y staff eu hunain.

Wrth gwrs, rydym yn gweithredu gydag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, a byddai unrhyw gynigion ynghylch sut rydym yn gweithio bob amser yn cynnwys trafodaethau a gwaith agos gyda'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur a staff ehangach cyn gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath. Dyma'r dull a wnaethom ei ddefnyddio wrth symud gweithrediadau casglu gwastraff i wythnos 4 diwrnod.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Green*
Yn rhan o'r treial yn Ne Swydd Gaergrawnt, dangosodd 9 o'r 16 ardal a gafodd eu monitro welliannau sylweddol mewn perfformiad, a hefyd gwnaeth y treial helpu'r

Cyngor i arbed £300k mewn ffioedd staff asiantaeth is. Y llynedd, treialodd 60 o gwmnïau'r DU yr wythnos pedwar diwrnod, gyda 90% yn dewis parhau â hi ar ôl y treial oherwydd yr effaith a gafodd ar gynhyrchiant a lles staff. Yn fy marn i, mae ei hamser wedi dod, a byddwn yn eich annog i gadw meddwl agored ar y syniad a gofyn i'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru gefnogi treial yn y dyfodol.

*Ateb – Y Cynghorydd Weaver*
Diolch, mae'n sicr yn syniad y gallwch ei weld yn cael ei dreialu mewn gwahanol leoedd ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i ni. Rwy'n credu mai'r hyn y gallem edrych arno pan ddaw'r amser yw y gallai fod yn briodol treialu mewn rhai rhannau o'r Cyngor. Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad nac ymrwymiad ar hynny o gwbl, ond mae'n rhywbeth y byddwn yn cadw llygad arno.

*Y Cynghorydd Williams i'r Cynghorydd De'Ath*
Mae llwybrau bysus ledled y ddinas wedi cael eu dileu'n ddiweddar. Mae'r Cyngor hefyd wedi cau'r Parcio a Theithio yn Rhodfa'r Dwyrain yn ddiweddar. Mae gorsaf drenau Parcffordd Llaneirwg newydd hefyd dan fygythiad yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i alw'r penderfyniad i mewn i'w adolygu. Mae'r ddarpariaeth o ran rheilffyrdd hefyd yn druenus o wael ledled De Cymru. Mae'r penderfyniadau hyn yn aml yn gwneud defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis amgen annigonol i geir a cherbydau preifat. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer tâl tagfeydd yng Nghaerdydd, gan daro trigolion a busnesau gyda £100au y flwyddyn o bosibl mewn trethi ychwanegol. A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi ei bod yn afresymol cyflwyno unrhyw fath o gynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig o ystyried y dewisiadau amgen annerbyniol ac annigonol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rydych yn gwybod yn iawn nad wyf yn cytuno â chi, ac mai codi tâl teg ar ddefnyddwyr ffyrdd yw'r unig ffordd o gael y math o system drafnidiaeth gyhoeddus rwy'n credu ein bod ni i gyd eisiau ei gweld. Nid wyf yn gwybod beth fyddech yn ei awgrymu heblaw am hynny i wella trafnidiaeth yn y ffordd rydych eisiau.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Williams*
Maent yn eich dysgu na ddylech byth ofyn cwestiwn oni bai eich bod yn gwybod yr ateb, ac mae ymateb y Cynghorydd De'Ath yn rhoi cipolwg pwysig i ni ar ddull gweithredu'r blaid Lafur hon. Dywedodd fod angen tâl tagfeydd arnom i ariannu gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, dywedais wrthych eich bod wedi dweud na fydd tâl tagfeydd nes bod y gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus wedi'u gwneud. Beth sy'n dod gyntaf, y tâl tagfeydd neu'r gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, a beth yw'r gwelliannau hynny?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rydych yn gwybod fy mod wedi dweud y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud cyn cyflwyno unrhyw dâl, ond gadewch i mi fod yn glir y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas hon yn gwella, ac rwy'n canolbwyntio ar wella trafnidiaeth gyhoeddus.

*Y Cynghorydd Latif i'r Cynghorydd De'Ath*
Gyda'r Cyngor yn newid o drwyddedau parcio papur i drwyddedau digidol, gall hyn ei gwneud yn anodd i lawer o bobl oedrannus neu anabl nad oes ganddynt liniadur, cyfrifiadur llechen, cyfrifiadur neu ffôn clyfar fynd ar-lein i brynu trwydded parcio i ymwelwyr, a bydd yn rhaid iddynt hefyd dalu fesul awr, a allai fod yn llawer mwy

costus na'r trwyddedau blynyddol blaenorol. Bydd hefyd yn heriol i drigolion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf a allai hefyd gael trafferth archebu trwyddedau ar-lein. Sut bydd y Cyngor yn helpu trigolion o'r fath i gael trwyddedau parcio i ymwelwyr?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Yn gyntaf, mae prynu oriau ymwelwyr yn hytrach nag un swp blynyddol yn rhatach mewn gwirionedd, ond mae'n rhaid i'r pethau hyn fod yn gynhwysol, ac mae technoleg ddigidol yn un ffordd o'u prynu. Gallwch eu prynu dros y ffôn, gan ddefnyddio cyfrifiadur neu drwy fynd i Hyb i ofyn am gyngor. Cefais gyfarfod defnyddiol gyda fy ffrind a'm cydweithiwr y Cynghorydd Gunter am yr union fater hwn, ac rwy'n croesawu trafodaeth ar faterion yn y system fel y gallwn eu datrys.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Latif*
Y rheswm rwy'n gofyn y cwestiwn hwn yw oherwydd y trigolion oedrannus ac anabl a allai gael llai o ymweliadau gan eu hanwyliaid, a allai achosi mwy o unigedd a phroblemau iechyd meddwl. A all y Cyngor sicrhau y byddant yn cael sesiynau un i un neu'n cael cynnig hyfforddiant yn yr Hyb fel y gallant ddysgu sut i wneud hyn? A all y Cyngor gyfrannu at ffonau clyfar neu gyfrifiaduron llechen fel y gallwn sicrhau eu bod yn gallu parhau'n rhan o gymdeithas.

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Gallaf – os ydych yn berson oedrannus, gallwch fynd i Hyb i gael cymorth digidol, a byddwn yn annog pobl i rannu'r wybodaeth hon gyda thrigolion.

*Y Cynghorydd Stubbs i'r Cynghorydd Merry*
A allai'r aelod cabinet amlinellu manteision ysgolion yn cymryd rhan yn Debatemate?

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*
Cyflwynir y rhaglen Debatemate mewn 8 Ysgol Uwchradd ar draws Arc Deheuol Caerdydd lle mae’r lefelau amddifadedd ymysg disgyblion ar eu huchaf.

Amcan dadlau yw datblygu sgiliau trosglwyddadwy allweddol a gwella ystod o sgiliau meddwl lefel uwch, fel gwaith tîm ac arweinyddiaeth, meddwl beirniadol a chreadigol a chyfathrebu a hyder.

Mae’r disgyblion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen 16 wythnos yn cydweithio i ddatblygu ystod o sgiliau, fel cyflwyno a chyfiawnhau dadl gan ddefnyddio tystiolaeth. Maent hefyd yn dysgu sut i strwythuro areithiau ac i ddatblygu arddull ac ansawdd eu hiaith lafar. Cyfeiriodd un o’m cydweithwyr yn y Cabinet ato fel y math o gyfle y mae plant sy'n mynychu ysgolion preifat yn ei gael, a dyna'r math o ddyhead rydym am i'n pobl ifanc ei gael.

Mae'r rhaglen yn ceisio cefnogi'r disgyblion hynny o ardaloedd o amddifadedd ac yn eu helpu i ddatblygu'r hyder i leisio eu barn ac i siarad yn bendant, sydd yn ei dro yn galluogi gwell llwybr i gyflogaeth a mynediad at fwy o gyfleoedd proffesiynol.

Mae gwerthusiadau a gynhaliwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod yr holl ddisgyblion a gymerodd ran yn y rhaglen â mwy o hyder, a gwell sgiliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Dywedodd yr athrawon hefyd eu bod wedi gweld gwelliant mewn perfformiad academaidd.

Byddwn hefyd yn ychwanegu y bydd dysgu sut i wrando ac ymateb yn briodol yn ystod y dadleuon yn sgil gwerthfawr hefyd.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Stubbs*
Byddwch yn ymwybodol o’r ffaith bod Ysgol Uwchradd Willows yn Nhremorfa wedi ennill Debatemate yn Stadiwm Principality yn ôl ym mis Ebrill, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Oherwydd hyn, cafodd lle yn y rownd derfynol yn Llundain. Cynhaliwyd y rownd derfynol ar 23 Mehefin a daeth Willows yn drydydd allan o gyfanswm o 500 o ysgolion. A wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Willows a phawb sy'n rhan ohono?

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*
Byddwn wrth fy modd yn llongyfarch disgyblion Ysgol Uwchradd Willows a hefyd ymrwymiad y staff i roi'r cyfle hwnnw i’r plant, a hoffwn ddweud ei fod yn dangos yn union yr hyn y gall plant Willows ei wneud -’Willows Way’ rydym yn galw hyn rwy’n credu.

*Y Cynghorydd Robson i'r Cynghorydd Burke*
Pa gymorth all y Cyngor ei gynnig i fusnesau bach sy'n gweithredu ym mharciau'r ddinas?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Er nad oes gan y Cyngor gymorth busnes penodol i fusnesau sy'n gweithredu ym mharciau'r ddinas, gall y busnesau hyn gael mynediad at yr ystod ehangach o fecanweithiau cymorth a gynigir gan y Cyngor i fusnesau yng Nghaerdydd.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cronfa Twf Busnes Caerdydd, sy'n rhoi cymorth ariannol i fusnesau sy’n tyfu yng Nghaerdydd ac sy'n cael ei chefnogi gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin;
- Cymorth i nodi safleoedd ac eiddo;
- Cyngor a chymorth i lywio gwasanaethau'r Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo busnesau sy'n aelodau o Rwydwaith Croeso Caerdydd; a
- Chyfeirio at sefydliadau cymorth busnes eraill fel Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, Business in Focus ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson*
Diolch am amlinellu’r rheiny. Mae fy nghwestiwn atodol yn ymwneud â Chaffi’r Ardd Gudd ym Mharc Bute. Roeddwn yn bryderus yn clywed am y sefyllfa gyda Chaffi’r Ardd Gudd gan gofio pa mor boblogaidd ydyw. Rwy'n gwerthfawrogi bod y brydles wedi dod i ben, ond mae'n ymddangos i mi y gellid bod wedi gwneud mwy i ddarparu ar gyfer busnes ffyniannus a phoblogaidd fel y gallai barhau yn y parc. Fy mhryder ehangach yw bod hyn yn anfon neges i unrhyw un arall sy'n dymuno gwneud rhywbeth fel hyn mewn unrhyw barc arall fod yn rhaid iddo fod yn ofalus iawn wrth ddelio â'r Cyngor. Mae'n anfon neges wael i fusnesau bach, yn enwedig y rhai a allai fod â gweithrediadau annibynnol yn ein parciau.

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*

Nid oedd cwestiwn penodol yno, ond byddaf yn ceisio rhoi rhywfaint o wybodaeth am hyn. Y rheswm na ellir rhoi dyfarniad uniongyrchol ar yr achlysur hwn yw oherwydd cytunwyd drwy sgwrs drwyadl gyda'r darparwr nad oedd y contract yn addas at y diben ac nad oedd ef na'r Cyngor yn cael y gorau ohono. Nid oedd y berthynas yn cynnig yr hyn yr oedd y busnes am ei gyflawni. Gan yr oedd natur y contract yn newid, ni ellir rhoi dyfarniad uniongyrchol. Mae'r achos penodol hwn o fewn tri maes portffolio: mae'n gaffi yn y parc ond mae hefyd elfennau cyllid, moderneiddio ac ystadau. Mae tri pheth trosfwaol yma sy'n gwrthdaro yn erbyn ei gilydd, ac roeddwn i eisiau bod yn onest gyda chi. Pe bawn i neu gynghorydd arall yn rhoi dyfarniad uniongyrchol, byddai'n diystyru'r polisïau sydd gennym fel Cyngor i ddiogelu'r busnesau rydym yn gweithio gyda nhw. Nid yw'r broses wedi dechrau eto felly rydym yn ceisio bod yn deg â'r perchennog a sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth o ran ein gallu i delio â hyn yn y ffordd gywir.

*Y Cynghorydd Naughton i'r Cynghorydd Wild*
Cafodd bagiau ailgylchu gwyrdd y Cyngor eu tynnu o Hyb The Powerhouse yn Llanedern, sy'n golygu bod trigolion wedi cael cyfarwyddyd i fynd i Lyfrgell Pen-y-lan i gasglu bagiau gwyrdd. Mae hyn wedi arwain at dipio anghyfreithlon yn yr ardal leol, gyda Phentwyn i gyd a hanner Llanedern heb eu rhoi ar system ailgylchu newydd y Cyngor eto. A allai'r Cyngor wrando ar alwadau gan aelodau ward lleol a thrigolion lleol ac ailgyflwyno bagiau gwyrdd yn hyb The Powerhouse eto?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Cafodd bagiau ailgylchu gwyrdd eu tynnu o Hyb The Powerhouse oherwydd problemau sylweddol gydag ailgylchu gwyrdd yn cael ei gyflwyno'n anghywir o fewn Ystâd Roundwood. Cafodd y broblem hon ei gwaethygu gan y bagiau gwyrdd a oedd ar gael yn lleol o Hyb The Powerhouse. Ni fu unrhyw gynnydd amlwg mewn achosion o dipio anghyfreithlon neu yn swm y gwastraff yn cael ei gyflwyno'n anghywir oherwydd y newid hwn.

Cyn tynnu'r bagiau gwyrdd o Hyb The Powerhouse, cytunwyd ar stociwr newydd yn One Stop ar Rodfa Pentwyn. Y stocwyr lleol eraill yn yr ardal yw McColls, Met Café a Premier Grocery. Yn ddiweddarach eleni, bydd pob cartref o fewn ward Pentwyn yn symud i'r gwasanaeth ailgylchu ar wahân, a fydd yn dileu'r galw am fagiau gwyrdd yn gyfan gwbl.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Naughton*
Rwy'n gwerthfawrogi hynny. Ers misoedd, mae aelodau ward wedi bod yn cysylltu â chi drwy e-bost. Mae staff Hyb The Powerhouse wedi cael eu cam-drin ar lafar gan drigolion sy'n rhwystredig am gael gwybod bod angen iddynt fynd i Ben-y-lan, ac yn aml nid yw'r bagiau ar gael yn y siopau eraill. Nes i ni symud i'r system newydd, a fydd yn digwydd pan fydd yn digwydd, a ellid rhoi bagiau gwyrdd yno fel mesur dros dro? Os nad yw hynny'n opsiwn, a ellid ystyried Canolfan Hamdden Pentwyn fel opsiwn, oherwydd ar hyn o bryd nid yw Pen-y-lan yn gweithio'n lleol.

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Mae ychydig o bwyntiau diddorol iawn yno. Mae'n ofnadwy os yw staff yn cael eu cam-drin yn yr Hyb, mae hynny'n annerbyniol a byddaf yn sicrhau bod y stocwyr hynny'n gallu cael bagiau gwyrdd. A gaf i ofyn i chi hefyd, gan yr oeddwn i yno y bore yma gyda'r Cynghorydd Moultrie, i gymryd agwedd gadarnhaol at y system ailgylchu ar wahân newydd? Ni fydd tanseilio'r cynllun ar bob pwynt yn helpu. Mae hyn yn rhywbeth sy'n mynd i ddigwydd, mae'n lanach ac yn well i'n staff a'r amgylchedd.

Mae wedi bod yn llwyddiannus ar hyd a lled Cymru. Beth am gyflwyno'r cynllun yn gadarnhaol gyda'n trigolion, a gweld canlyniadau llawer gwell i'r gymuned?

*Y Cynghorydd Moultrie i'r Cynghorydd Sangani*
Gall y menopos fod yn gyfnod anodd i fenywod. Gallant brofi amrywiaeth o symptomau heriol gan gynnwys gorbryder ac iselder. Mae mor bwysig eu bod yn cael eu cefnogi a'u clywed. A all yr aelod roi cyngor ar yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi menywod yn y gymuned?

*Ateb – Y Cynghorydd Sangani*
Rwy'n falch o allu dweud bod grwpiau cymorth menopos wedi bod yn digwydd mewn Hybiau Cymunedol, a hwylusir gan y Gwasanaeth Cymorth Lles, lle mae cyfranogwyr yn siarad am eu symptomau fel magu pwysau, ymennydd niwlog a phroblemau iechyd meddwl.

Maent hefyd yn cymryd rhan mewn ymarferion ymlacio, yn mynegi eu hunain trwy dynnu lluniau ac yn cymryd rhan mewn ymarfer corff ysgafn i helpu i reoli eu gorbryderon.

I lawer o fenywod, gall y Menopos fod yn gyfnod llawn creadigrwydd a gall cyfleoedd i fynegi hyn fod yn hynod fuddiol.

Gyda hyn mewn golwg, llwyddodd y tîm i weithio gydag artist i gyflwyno prosiect peilot – 'Menopause Makers' yn Hyb Rhiwbeina – lle roedd menywod yn gallu mynegi eu teimladau trwy ddefnyddio gwahanol fathau o fynegiant artistig.

Roedd y prosiect peilot yn llwyddiannus iawn ac mae bellach wedi'i symud i Tesco Extra ar Rodfa'r Gorllewin fel y gall mwy o fenywod gymryd rhan.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Moultrie*
Sut gall cynghorwyr gymryd rhan fel y gallant sicrhau bod gan bob Hyb fynediad at hyn? Rwy'n gwybod nad oes gan lawer o fenywod lawer o wybodaeth am y menopos a dim ond yn ei weld fel rhywbeth maent yn mynd drwyddo, rwy'n credu bod cymorth yn bwysig iawn i gyfleu'r neges nad ydynt ar eu pennau eu hunain.

*Ateb – Y Cynghorydd Sangani*
Rwy'n cytuno, yn sicr. Mae'n bwysig iawn ein bod yn rhannu gwybodaeth am hyn, gan ei fod yn fy mhortffolio i byddaf yn gofyn i'r Gwasanaeth Democrataidd ddosbarthu hyn i bob cynghorydd.

*Y Cynghorydd Robson i'r Cynghorydd Wild*
Pa mor aml mae generaduron diesel yn cael eu defnyddio i wefru cerbydau trydan y Cyngor?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Nid yw'r Cyngor yn defnyddio generaduron diesel fel mater o drefn i wefru cerbydau trydan.

Roedd yn rhaid eu defnyddio o'r blaen i helpu i wefru'r 12 Cerbyd Casglu Gwastraff (CCG) trydan yn ein fflyd tra gwnaed ymdrechion i ddatrys problem feddalwedd rhwng gwefrwyr cerbydau trydan a'r CCGau. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys.

Nid yw'r broblem hon yn benodol i Gaerdydd ac mae hefyd wedi effeithio ar awdurdodau lleol eraill sy’n defnyddio CCGau trydan.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson*
Rwy'n falch o glywed mai dim ond un digwyddiad ydoedd, ond mae'n rhaid gofyn pa mor gadarn yw'r feddalwedd rydym yn dibynnu arni i wefru ein cerbydau trydan. Roeddwn i'n tybio mai dim ond plwg oedd angen i wefru cerbyd trydan, ond os ydym yn dibynnu ar feddalwedd hefyd, mae hyn yn risg arall i'w hystyried ar y gofrestr risgiau.

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Rydych yn gofyn cwestiwn da, bydd y symudiad i wneud bron y ddinas gyfan yn drydanol yn cynnwys llawer o wahanol bethau. Mae'r CCGau yn bethau eithaf newydd ac nid yw'r grid â’r capasiti eto. Bydd angen i'r ddinas gyfan newid a bydd pethau yn mynd o chwith yn ystod yr amser hwnnw. Yn yr achos hwn, nid oeddem am beidio â chasglu sbwriel pobl. Bydd yn rhaid i ni barhau i ddysgu wrth i ni newid yn gyflym fel dinas.

*Y Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd Goodway*
Gan adleisio pryderon rwyf wedi'u mynegi o'r blaen am ffaith bod y Sgwâr Canolog yn teimlo'n gyfyng ac yn ddi-enaid, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r awdur Mike Parker pan ddisgrifiodd yr ardal yn ddiweddar fel dystopia uffernol gyda dim byd yno i godi'r galon neu i sirioli'r enaid ac fel lloc anifeiliaid. Felly, a ydych chi’n derbyn bod llawer o bobl yn parhau’n anhapus iawn ag ymddangosiad presennol y safle porth allweddol hwn yng nghanol ein dinas ac, yng ngoleuni addewidion blaenorol, pryd y gallwn ddisgwyl i'r Cyngor weithredu i fynd i'r afael â hyn?

*Ateb – Y Cynghorydd Goodway*
Byddwn yn cyfeirio'r Cynghorydd at yr ateb a roddais iddo ym mis Mehefin y llynedd ar y mater hwn.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Berman*
Onid ydych chi'n difaru bod mater a godais ym mis Mehefin 2022 yn dal i fod yn broblem heddiw? Onid yw hynny'n awgrymu nad yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw beth am y broblem hon?

*Ateb – Y Cynghorydd Goodway*
Na, mae’r Sgwâr Canolog yn un o'r prosiectau adfywio mwyaf llwyddiannus a gyflawnwyd yng Nghymru, gan adfywio ardal y gwnaethoch chi eich hun ei disgrifio fel un hen ffasiwn. Mae'r datblygiad penigamp hwn i'r gogledd o orsaf drenau Caerdydd Canolog wedi creu pencadlys eiconig BBC Cymru, datblygiad Stryd Wood, a enillodd Wobr Prosiect Sifil y Flwyddyn Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru y mis hwn, ac sydd wedi darparu ar gyfer tua 6,600 o swyddi yng nghanol y ddinas, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas.

Rydych hefyd yn ymwybodol bod hwn yn ofod gweithredol a bod yn rhaid i ni ei ystyried yng nghyd-destun yr orsaf reilffordd a ddefnyddir fwyaf yng Nghymru, sy'n eistedd ochr yn ochr â lleoliad digwyddiadau mwyaf Cymru. Yn ystod digwyddiadau mawr, mae angen i'r ardal hon aros wedi'i thirlunio’n galed ac yn rhydd o annibendod. Ochr yn ochr â hyn, bydd ehangu capasiti metro De Cymru yn golygu y bydd capasiti yn yr orsaf yn cynyddu yn ystod digwyddiadau, yn ogystal â nifer yr ymwelwyr drwy gydol y cyfnod.

Ond er hynny, fel rwyf wedi dweud wrthych o'r blaen, mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn Trafnidiaeth Cymru yn ogystal â busnesau cyfagos i ystyried datrysiadau symudol y gellir eu tynnu'n hawdd er mwyn gallu rheoli digwyddiadau mawr. Bydd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar ôl i'r prosiect o amgylch y Sgwâr Canolog gael ei gwblhau'n llawn. Ond hyd yn oed pe bai wedi'i gwblhau nawr, byddai'r tirlunio wedi cael ei symud ar adeg ymweliad Mr Parker, dim ond oherwydd y digwyddiadau a oedd yn digwydd yn y ddinas bryd hynny.

*Y Cynghorydd Lewis i'r Cynghorydd Sangani*
A allai'r aelod cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a roddir i'r Hyb i Wcreiniaid yn Butetown?

*Ateb – Y Cynghorydd Sangani*
Dros y tri mis diwethaf, mae swyddogion o'r Timau Ystadau Strategol a Chymorth i Wcreiniaid wedi cefnogi'r Hyb i Wcreiniaid wrth chwilio am safle amgen yn y ddinas, ar ôl gorffen meddiannu Tŷ Mandalay yn Butetown ddiwedd mis Mai.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae'r Hyb wedi'i wneud wrth gynnig lle diogel i Wcreiniaid sydd wedi cyrraedd Caerdydd ddod at ei gilydd i rannu eu profiadau a theimlo ymdeimlad o berthyn, ac i dderbyn eitemau a roddwyd yn hael gan ein cymunedau.

Rwy'n falch o'ch hysbysu bod grŵp arweinyddiaeth yr Hyb i Wcreiniaid wedi nodi safle newydd addas ym Maes y Mileniwm yng nghanol y ddinas ac yn paratoi i'w feddiannu, gan aros i fân adnewyddiadau gael eu cwblhau.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi cymorth ariannol ymlaen llaw gyda chostau tâl gwasanaeth, yn lle rhent, yn ystod y flwyddyn gyntaf, i alluogi'r Hyb i Wcreiniaid i symud i'r gofod cymunedol newydd a chodi arian i sefydlu ei annibyniaeth ariannol.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Lewis*
Rwy'n hapus iawn i glywed bod hynny wedi'i ddatrys, er mwyn sicrhau bod cymorth preifat yn cael ei roi i Wcreiniaid yn y dyfodol.

*Ateb – Y Cynghorydd Sangani*
Ie, dyma un o'm blaenoriaethau i, ac rydw i bob amser yn ceisio ymgysylltu â Hyb yr Wcreiniaid i sicrhau eu bod yn cael yr holl gymorth y gallwn ei roi fel cyngor.

*Y Cynghorydd Ash-Edwards i'r Cynghorydd Burke*
Mae'r rhaglen buddsoddi yn ein meysydd chwarae yn helpu i sicrhau bod parciau Caerdydd yn parhau'n gyrchfan ddeniadol i deuluoedd lleol. Sut penderfynir pa barciau sy'n elwa o raglen adnewyddu'r Cyngor?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Swm yr arian Adran 106 sydd ar gael yw'r prif ffactor wrth benderfynu pa barciau sy'n elwa o'r rhaglen adnewyddu.

Fel y gwyddoch o bosibl, mae'r arian hwn yn dod o ddatblygiadau, rhai preswyl yn bennaf, nad ydynt yn cynnwys mannau agored cyhoeddus ac, felly, mae angen cyfraniadau datblygwyr oddi ar y safle ar y Cyngor er mwyn gwella mannau agored

cyhoeddus yn yr ardal leol. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i gyflawni cynlluniau adnewyddu ardaloedd chwarae.

Pan wneir dyraniadau cyfalaf nad ydynt yn rhai Adran 106, penderfynir ar y blaenoriaethau drwy asesiad risg lle mai'r meysydd chwarae hynny sydd mewn perygl o gael eu cau sy'n derbyn arian.

Mae'r trydydd maes ariannu trwy gynlluniau adnewyddu cymdogaethau, sy'n rhan o fenter ledled y ddinas sydd â'r nod o fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol trwy gefnogi prosiectau adfywio amgylcheddol a gyflwynwyd gan aelodau ward lleol. Mae'r rhaglen yn cyflawni prosiectau wedi'u cynllunio a'u datblygu mewn partneriaeth â thrigolion lleol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i fynd i'r afael ag angen neu broblem a nodwyd.

*Cwestiwn atodol – Y Cynghorydd Ash-Edwards*
Mae Parc y Mynydd Bychan yn un o'r parciau mwyaf a ddefnyddir fwyaf yn y ddinas, a byddai trigolion yn croesawu buddsoddiad yn y maes chwarae i sicrhau ei fod o'r un safon â'r ardaloedd chwarae yn rhai o'n parciau eraill. Beth sydd angen digwydd iddo gael ei ychwanegu at y rhaglen adnewyddu?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Rwy'n parchu eich dycnwch a dycnwch eich cydweithwyr ward hefyd. Yn amlwg, rydym wedi bod yn cael trafodaeth barhaus ar y pwnc hwn ers cwpl o fisoedd, rwy'n credu ei bod yn debyg bod sgwrs y gallem ei chael ar y rhaglen adnewyddu cymdogaethau, ond yr hyn yr hoffwn ei weld yw cynllun gwaith trosfwaol i edrych ar o ble y gallwn gael arian, gan nad oes llawer o gyfle i gael arian A106 yn eich ward. Byddwn yn edrych ar yr hyn y gallwn eu defnyddio, gobeithio rhywbeth eithaf arloesol.

*Y Cynghorydd Jackie Jones i'r Cynghorydd Weaver*
A allai'r aelod cabinet roi mwy o fanylion am ein gweithredoedd mewn perthynas â chyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi a'r hyn y mae'n ei olygu i Gaerdydd a'n lle yn y byd?

*Ateb – Y Cynghorydd Weaver*
Rwy'n falch mai Cyngor Caerdydd oedd y sefydliad cyntaf i ymuno â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn ôl yn 2017.

Roedd Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor hefyd yn un o'r cyntaf i gael ei gyhoeddi yng Nghymru.

Am amser hir, y Cyngor oedd yr unig Gyngor Cyflog Byw achrededig yng Nghymru ac, yn 2019, Caerdydd oedd yr ail ddinas yn unig yn y DU i gael ei chydnabod fel Dinas Cyflog Byw.

Mae nifer y bobl sy'n cael codiad cyflog o ganlyniad i'w sefydliad yng Nghaerdydd yn dod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig yn un o'r uchaf yn y DU, sef dros 13,000.

Mae Tîm Caffael y Cyngor yn parhau'n rhagweithiol wrth ymwreiddio gofynion cyflogaeth foesegol mewn tendrau a chontractau yn unol ag arfer gorau cydnabyddedig.

Mae gwaith y Cyngor yn y maes hwn yn cael ei nodi'n aml mewn astudiaethau achos ledled y DU ac mae hefyd wedi cael ei gydnabod mewn amryw o wobrau'r DU.

## 31 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 32 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Derbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag cyfredol

y pwyllgor fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy

o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

Dderbyn enwebiad a phenodi i'r swydd wag ar y Pwyllgor, yn unol â dymuniadau'r Grŵp Pleidiau, fel y nodwyd yn Nhabl A ac ar y Ddalen Diwygiadau.

## 33 : PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Penodi Llywodraethwyr Ysgol Awdurdod Lleol i lenwi swyddi gwag yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

- gymeradwyo penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol newydd i'r cyrff llywodraethu ysgolion fel y nodwyd yn Atodiad 1, pob un am gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

## 34 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor, caiff y Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried, ynghyd â'r ymatebion iddynt, eu hatodi i'r cofnodion.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 pm